

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cymmer Dental Surgery/Bwrdd
Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 14 Hydref 2019

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	20
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	23
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	24
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	25
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	26

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad, lle rhoddwyd rhybudd, o Cymmer Dental Surgery, y Ganolfan Iechyd, Station Road, Cymer, Port Talbot, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 14 Hydref 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol y Ganolfan Iechyd yn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn neu'n ardderchog.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn lân ac yn drefnus ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer dihalogi offer deintyddol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw i safon uchel
- Roedd y cleifion yn derbyn y wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau hyddysg am eu triniaeth.
- Roedd ardal y clinig yn lân iawn ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda
- Roedd cyfarpar brys yn cael ei gadw yn unol â chanllawiau cenedlaethol

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen rhagor o wybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn gwella o ganlyniad i adborth gan gleifion
- Mae angen i'r bwrdd iechyd gael gwared ar y cyfarpar a ddatgomisiynwyd
- Mae angen i'r cofnodion clinigol gynnwys cydsynio parhaus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol y Ganolfan Iechyd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cymer. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd ac un nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod gan Wasanaeth Deintyddol Cyffredinol Canolfan Iechyd Cymer brosesau addas ar waith er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd y mwyafrif o'r cleifion o'r farn bod y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth deintyddol yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn' a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth ysgrifenedig am gynnal hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros.

Gallai'r practis elwa o sicrhau bod mwy o lenyddiaeth benodol i'r practis ar gael yn yr ardal aros.

Gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion cyn ein harolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 35 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers blwyddyn hyd at fwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Rwyf bob amser wedi ofni'r deintydd, ond mae'n gwneud i mi ymlacio fwy a theimlo'n dawelach fy meddwl"

"Mae'r practis deintyddol o safon uchel iawn ac mae'r staff yn barod iawn i helpu a rhoi tawelwch meddwl, ac maent yn gwneud gwaith da iawn"

"Roedd y gwasanaeth yn ardderchog ac ni allwn ofyn am well"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd y cleifion yn hapus iawn â'r gofal a ddarperir, dywedodd un claf:

"Mae'n wych fel y mae"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ystafell aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a'i chadw, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom ymddygiad proffesiynol gan y staff drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Gwelsom fod gan y staff fynediad i amrywiaeth o bolisiau a oedd yn nodi sut y dylai preifatrwydd a gwybodaeth bersonol y cleifion gael eu diogelu.

Dywedwyd wrthym fod y drws yn aros ar gau pan oedd triniaethau'n cael eu cyflawni. Roedd y ffenestri wedi'u gorchuddio â bleinds i gynnal cyfrinachedd y cleifion.

Gwelsom nad oedd y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r GDC yn ei gwneud hi'n ofynnol bod yr egwyddorion yn cael eu harddangos mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safonau gofal y gallant ddisgwyl eu derbyn gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis arddangos y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y GDC mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Gwelsom fod costau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos i gleifion yn yr ardal aros. Hefyd, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion fod y gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn yr ystafell aros yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael i gleifion yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith 'bob amser'.

Roedd y staff yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg ac os byddai cleifion am sgwrsio mewn unrhyw iaith arall gallent drefnu hyn drwy wasanaeth cyfieithu. Roedd polisi ar gael i gefnogi trefniadau ar gyfer dwyieithrwydd yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos mewn perthynas â'r trefniadau hyn. Gwnaethom argymhell bod y gwasanaeth yn arddangos y wybodaeth hon yn yr ardal aros lle gallai cleifion ei gweld yn glir.

Gofal amserol

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gwneud apwyntiadau yn bersonol neu drwy ffonio prif bractis y deintyddfa. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiad wrth gyrraedd, neu cyn gynted ag y maent yn digwydd.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau brys ar gael drwy gydol yr oriau gwaith arferol. Caiff cleifion y mae angen gofal brys arnynt y tu allan i oriau eu cyfeirio at y rhif ffôn ar gyfer argyfwng y tu allan i oriau. Gwelsom fod gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallant gael gafael ar driniaeth y tu allan i oriau wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig a oedd yn cynnwys nodiadau am y costau a'r opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn unol ag arfer gorau ac yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud dewisiadau hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth yn ystod ein hadolygiad o gofnodion y cleifion a gadarnhaodd fod y rhain yn cael eu cofnodi'n briodol gan y deintydd.

Hawliau pobl

Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol wedi'i leoli ar lawr cyntaf adeilad a ddefnyddir gan wasanaethau iechyd eraill a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Nid oedd lifft yn yr adeilad ac felly nid oedd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn na chleifion ag anawsterau symudedd.

Gwnaethom nodi y gallai'r staff gael gafael ar amrywiaeth o bolisiau'n ymwneud â chydaddoldeb a ddatblygwyd gan y gwasanaeth a oedd yn nodi'r egwyddorion i'w dilyn er mwyn sicrhau y gall pawb dderbyn yr un cyfleoedd a chael eu trin yn gyfartal.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod holiaduron cleifion ar gael i'r cleifion roi adborth am y gwasanaeth a ddarperir. Dywedwyd wrthym eu bod fel arfer yn delio â sylwadau'r cleifion ar yr adeg y cânt eu gwneud, a chaiff y rhain eu cofnodi mewn ffolder a'u hadolygu'n rheolaidd i nodi unrhyw themâu sy'n ailgodi.

Ni allem weld unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos yn y practis i ddangos i'r cleifion bod y practis yn gweithredu ar adborth gan gleifion ac yn dysgu ohono. Rydym yn argymhell bod y practis yn ystyried y ffordd orau o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn adborth gan gleifion.

Gwelsom fod y poster 'Gweithio i Wella'¹ yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i hysbysu'r cleifion sut y gallant godi cwyn neu bryder. Nodwyd y weithdrefn gwyno i'r staff mewn polisi cwynion a ddatblygwyd gan y gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym y byddai'r holl gwynion yn cael eu cofnodi mewn ffeil a'u trafod â'r practis mewn cyfarfodydd tîm neu â'r deintydd yn uniongyrchol yn ystod y broses arfarnu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis ystyried y ffordd orau o roi gwybod i'r cleifion am unrhyw gamau sydd wedi cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn dilyn unrhyw adborth gan gleifion.

¹ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-x yn ddiogel.

Gwelsom amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n amlinellu trefniadau ar gyfer gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y clinig deintyddol wedi'i leoli ar lawr cyntaf canolfan iechyd bwrpasol a oedd hefyd yn cynnwys meddygfa a chlinig ymwelwyr iechyd, yn ogystal â deintyddfa a rennir.

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a gwelsom fod pob ardal yn y clinig deintyddol yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn 'lân iawn'. Fodd bynnag, gwelsom fod dodrefn a ddatgomisiynwyd yn cael eu storio o dan y grisiau lle caiff y cleifion fynediad i'r clinig deintyddol. Er bod arwyddion yn nodi na ddylid defnyddio'r ardal ar gyfer storio. Rydym yn argymhell bod y dodrefn yn cael eu symud o'r ardal hon er mwyn osgoi perygl posibl.

Roedd arwyddion dim smygu wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r adeilad er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg². Roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos hefyd er mwyn hysbysu'r staff am y ffordd orau o amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Gallai'r staff newid yn y toiledau a oedd â drws y gellid ei gloi er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd swyddfa dan glo hefyd ar gael er mwyn i'r staff storio eu heiddo personol yn ddiogel.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddiogelu'r staff a phobl a oedd yn ymweld â'r safle yn ddigonol pe byddai tân:

- Cynhaliwyd asesiadau risg tân yn rheolaidd a rhoddwyd camau adferol ar waith
- Roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael ym mhob rhan o'r practis deintyddol a oedd wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol
- Roedd y bwrdd iechyd yn cynnal profion larymau tân ac ymarferion tân yn wythnosol
- Roedd arwyddion priodol ar gyfer yr allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ffurfiol cyfredol mewn diogelwch tân.

Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar y mesurau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y practis i gadarnhau bod y dulliau glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru

² Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn manau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

(WHTM) 01-05³. Roedd dwy ystafell ddihalogi ddynodedig ar wahân wedi'u lleoli wrth ymyl y ddeintyddfa, un ystafell lân ac un ystafell fudr. Roedd y ddwy ystafell yn ymddangos yn lân, yn daclus a heb unrhyw annibendod. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cyfarpar a ddatgomisiynwyd wedi cael ei symud o'r ystafell ddihalogi ac rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn trefnu i'r cyfarpar hwn gael ei symud.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf (cyfarpar sterileiddio) yn gweithredu'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth ym maes diheintio a dihalogi yn gyson yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyflawni safonau uchel o ran rheoli heintiau mewn perthynas â meysydd megis hylendid dwylo a dulliau glanhau effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid cael cofnodlyfr dynodedig i ddilysu'r broses o lanhau offerynnau â llaw.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom dystiolaeth bod gan yr holl staff clinigol statws imiwneiddio Hepatitis B derbyniol a oedd yn golygu bod mesurau yn cael eu cymryd er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod gwastraff (clinigol) peryglus yn cael ei storio'n ddiogel ac yn briodol a gwelsom fod gan y bwrdd iechyd gontract gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus o'r fath mewn ffordd ddiogel.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd symud cyfarpar a ddatgomisiynwyd o'r ystafell ddihalogi.

Dylai'r gwasanaeth gael cofnodlyfr dynodedig i ddilysu'r broses o lanhau offerynnau â llaw.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau a threfniadau effeithiol ar waith mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau a'u cadw'n ddiogel a'u gwaredu.

Roedd polisi ar waith ar gyfer dadebru a rheoli argyfyngau meddygol a gwnaethom nodi eu bod yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadebru. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁴. Roedd gan y gwasanaeth system â chod lliw ar gyfer trefnu'r cyfarpar ac felly roedd yn hawdd cael gafael arnynt pe bai argyfwng meddygol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod gweithdrefnau ar waith yn y practis i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg.

Roedd polisiau cyfredol ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a ddatblygwyd gan y gwasanaeth ar gael i'r staff a oedd yn cynnwys y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu yn codi. Fodd bynnag, rydym yn argymhell ychwanegu'r wybodaeth gyswllt leol ar gyfer diogelu oedolion at y polisi. Gallai'r staff hefyd ofyn am gyngor a chanllawiau ar unrhyw faterion yn ymwneud â diogelu gan sawl arweinydd diogelu a nodwyd yn y bwrdd iechyd.

⁴ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'u bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu oedolion lleol at y polisi diogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis deintyddol. Roedd y ddeintyddfa mewn cyflwr da gan ei bod wedi'i hailwampio yn ddiweddar a gwelsom ei bod yn cynnwys digon o gyfarpar, offerynnau a deunyddiau.

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio
- roedd polisi ymbelydredd ar waith ac roedd y rheolau lleol wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau gwaith diogel i'r staff eu dilyn
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis wedi cynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol, ac yn parhau i'w cynnal, er mwyn helpu i fonitro a chyfrannu at y broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau ar gyfer canllawiau arfer gorau dihalogi WHTM 01-05, cadw cofnodion, radiograffau a rhoi'r gorau i smygu.

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol a gwella ansawdd wedi'u hamlinellu mewn polisi a ddatblygwyd gan y gwasanaeth.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Cawsom wybod bod y gwasanaeth yn defnyddio Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sef adnodd datblygu practis sydd wedi'i anelu at helpu'r tîm deintyddol i gydweithio er mwyn nodi meysydd allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol a gofynion deddfwriaethol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd nifer o bolisiâu ar gael i'r staff yn y gwasanaeth a oedd yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn diogelu gwybodaeth cleifion yn briodol a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig a dywedwyd wrthym fod copïau o'r data yn cael eu creu a'u cadw oddi ar y safle yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellir adfer y data gwreiddiol pe byddai unrhyw beth yn digwydd i'r safle neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt fwyach.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod o safon uchel ac yn helpu'r gwasanaeth i ddarparu gofal o ansawdd i gleifion. Y rheswm dros hyn yw bod y cofnodion cleifion a welsom:

- yn glir, yn ddarllenadwy ac yn dogfennu trafodaethau a gafwyd â chleifion am gostau, risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt
- yn cynnwys dogfennaeth radiograffi gynhwysfawr yn unol â chanllawiau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)
- yn cynnwys cyfiawnhad wedi'i ddogfennu'n glir o'r rhesymau pam bod pelydrau-X yn cael eu cymryd neu pam nad oeddent yn cael eu cymryd.

Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y gwasanaeth yn cofnodi cydsyniad llafar parhaus yng nghofnodion y cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r gwasanaeth gofnodi cydsyniad llafar parhaus yng nghofnodion y cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Rhodddwyd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith gan y gwasanaeth a oedd yn cynnwys arfarniadau staff blynyddol.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar gael er mwyn cefnogi'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w helpu yn eu gwaith.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod digon o staff yn y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol bob amser.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis deintyddol yn rhan o'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Caiff yr holl wasanaeth ei gefnogi gan amrywiaeth o rolau uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau a ddatblygwyd gan y gwasanaeth ar gael i'r staff. Roeddent yn cael eu cynnal a'u cadw a'u rheoli gan y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol a gwelsom fod yn rhaid i'r staff lofnodi i ddangos eu bod wedi darllen a deall pob polisi ac unrhyw ddiweddariadau.

Roedd y staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac fe'u gwelsom yn gweithio'n dda gydag aelodau o'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, y maent yn rhannu'r ddeintyddfa â nhw.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Mae'r staff yn rhedeg y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol dau ddiwrnod yr wythnos fel rhan o gytundeb â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd gan yr aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu rheoli'n ganolog.

Dywedwyd wrthym fod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ym man gwaith arferol yr aelod o'r staff, gan ystyried ei rôl yn y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y staff Gynllun Datblygiad Personol ar waith a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni gofynion DPP.

Dywedwyd wrthym fod nifer priodol o staff yn y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol gan fod un deintydd ac un nyrs ddeintyddol yn gweithio yn y gwasanaeth yn gyson. Dywedwyd wrthym fod ail nyrs ddeintyddol yn gyfarwydd â'r gwasanaeth bellach, rhag ofn bod unrhyw absenoldeb annisgwyl.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr adran. Mae'r bwrdd iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw aelodau newydd o'r staff sy'n cael eu recriwtio i weithio i'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'u diogelu i weithio gyda chleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Y Ganolfan Iechyd

Dyddiad arolygu: 14 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Y Ganolfan Iechyd

Dyddiad arolygu: 14 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r practis arddangos y 9 Egwyddor a ddatblygwyd gan y GDC mewn ardal lle gall y cleifion eu gweld yn hawdd.	Gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Bydd poster yn cael ei greu a'i arddangos yn yr ardal aros yn amlinellu 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	R Coles	16/12/2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd symud y cyfarpar a ddatgomisiynwyd o'r ystafell ddihalogi.</p> <p>Mae angen i'r gwasanaeth gael cofnodlyfr dynodedig i ddilysu'r broses o lanhau offerynnau â llaw.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Mae cais wedi cael ei anfon i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gofyn am i'r cyfarpar a ddatgomisiynwyd gael ei symud cyn gynted â phosibl.</p> <p>Cofnodlyfr wedi'i greu a'i roi yn yr ystafell ddihalogi i gofnodi tymheredd y dŵr, faint o amser a dreuliyd a'r glanedydd a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau â llaw cyn sterileiddio.</p>	<p>R Coles /BIP Bae Abertawe</p> <p>R Coles</p>	<p>Mae cais wedi cael ei anfon eisoes i BIPBA i gwblhau'r weithred hon.</p> <p>Yn syth.</p> <p>Mae hyn eisoes wedi cael ei roi ar waith.</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r gwasanaeth ychwanegu manylion cyswllt ar gyfer y tîm diogelu oedolion lleol at y polisi diogelu.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Mae'r manylion cyswllt ar gyfer Tîm Derbyn Gwasanaethau Oedolion BIPBA ar gyfer Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer Timau Dyletswydd Brys, bellach wedi'u cynnwys yn ein polisi diogelu. Bydd y staff yn cael gwybod bod y manylion hyn bellach ar gael yn nogfennau'r polisi.	R Coles	Yn syth. Mae'r polisi eisoes wedi cael ei ddiwygio.
Mae angen i'r gwasanaeth gofnodi cydsyniad llafar parhaus yng nghofnodion y cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol.	3.5 Cadw cofnodion	Byddwn yn cynnwys y frawddeg 'rhoddwyd cydsyniad llafar' (VCG) yng nghofnodion clinigol y cleifion er mwyn cydnabod cydsyniad y claf, pan fydd wedi'i roi.	R Coles	Yn syth. Mae'r weithred hon eisoes wedi cael ei rhoi ar waith.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Nid oes angen gwella				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth **Dr Rachel Coles**

Enw (priflythrennau): **Rachel Coles**

Teitl swydd: **Pennaeth y Practis / Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol**

Dyddiad: **29/11/2019**